Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newsletter

Issue number 6, August 2008

Cymraeg

English

Welcome to the latest edition of the HEFCW newsletter.

Here, you will find information about new and recent developments in our work of funding higher education in Wales, including links to news items and circulars.

- The index below is linked to stories in the newsletter; and
- Each story's heading will take you to even more information on the Internet.

Please contact Emma Raczka on 029 2068 2225 or at emma.raczka@hefcw.ac.uk if you would like this newsletter in an alternative format, such as Word, large text or Braille.

In this edition

Funding for higher education in Wales in 2008/09

Widening Access to Lifelong Learning Conference

More *Reaching Wider* funding to come

HEFCW Stakeholder Survey

Universities mean business

Welsh Higher Education Brussels (WHEB)

New review of higher education in Wales

Performance Indicators 2006/07

Funding for strategies

Additional support for part-time students

Research Excellence Framework

Accrediting initial teacher training (ITT) providers

Funding Allocations 2007/08

About us

Funding for higher education in Wales in 2008/09

HEFCW announced in May that higher education institutions in Wales would receive grant allocations of £450 million in the 2008/09 academic year.

The main allocations of core funding for teaching and research will total more than £360 million. An additional £90 million goes to for capital funding and a range of other strategic priorities.

In line with Assembly Government guidance, we continue to examine additional strategic uses of funding and plan to increase the proportion of our grant devoted to strategic priorities, particularly research, widening access and Welsh medium provision.

In seeking to maximise the contribution which higher education institutions make to Wales, we are committed to working with them to retain their competitiveness in UK and international markets.

"Higher education is a net generator of income, representing an excellent investment of public funds, and HEFCW will continue to work with the Welsh Assembly Government to achieve funding which will allow higher education to make a full contribution to the future development of Wales."

Roger Thomas, HEFCW Chairman, commenting on the new funding settlement

← Back

Widening Access to Lifelong Learning Conference

The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, Jane Hutt, provided the keynote address at the widening access to lifelong learning conference on 19 June. The event, jointly hosted by HEFCW, UALL Cymru (Universities Association of Lifelong Learning Wales) and

"...The fact that the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills gave the keynote address at this conference is a mark of how important widening

NIACE Dysgu Cymru (National Institute of Adult Continuing Education) attracted more than a hundred delegates from across Wales.

The conference aimed to consider a number of higher education-related themes around widening access policy and practice to inform future policy implementation and to share best practice.

HEFCW's Chief Executive, Professor Philip Gummett, opened the conference by inviting delegates to reflect on the progress made by, and challenges facing, widening access to higher education as we near the end of the Welsh Assembly Government's *Reaching Higher* strategy for higher education (2000 - 2010).

Professor Alan Felstead of Cardiff University provided a critique of the skills level and quality of jobs in Wales as a context for round table discussions led by policy makers and widening access practitioners in Wales.

access to higher education is, including the Reaching Wider *initiative. Higher education institutions continue to make progress towards widening access to all sectors of our society and thus they play a significant role in ensuring that Wales is an inclusive and skilled society'.*

Philip Gummett, Chief Executive, HEFCW

We will publish a conference report on the HEFCW website in August.

← Back

More *Reaching Wider* funding to come

HEFCW's national initiative aimed at improving the diversity of students studying at universities in Wales has been given a further three years of funding.

Reaching Wider, funded by the Welsh Assembly Government, comprises university, college, school and other organisations in Wales working together to raise aspirations and achivement among learners in the most disadvantaged communities and from communities traditionally under-represented in higher education.

The Welsh Assembly Government has allocated £4 million for the next two academic years 2008/10 with a commitment to additional funding in 2010/11

"The progress that the Partnerships have made to date in widening access to higher education has been commendable and I am pleased that Wales remains ahead of the game in terms of engaging with people in those hardest to reach communities."

Jane Hutt, Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

← Back

HEFCW Stakeholder Survey

To fulfil our mission, we must ensure that we provide an effective service to our stakeholders, and that clear, accessible and strategic communications support our operations and our relationships with the Welsh higher education sector, the Welsh Assembly Government and other partners.

o assess how effective our service is, and how well our relationships work, we commissioned, in autumn 2007, our first ever survey of stakeholders and partners.

The independent survey gathered views about the services we provide and about our relationships with other organisations.

We can compare our 74% overall "favourability rating" with that of the other higher education funding bodies in the UK, based on similar surveys. The Scottish Funding Council received 72% and the Higher Education Funding Council for England achieved a 76% favourability rating in its first survey, which has now increased to 84%.

We are encouraged by the overall outcome and much of the detail that emerges. However, through listening to partners, we aim to develop our systems and ways of working to improve our effectiveness and ensure greater satisfaction.

We conclude that we need to explain our role better in relation to the various other bodies with whom we interact. We also need to improve our interaction with HE institutions. Finally, we have plans to enhance our media profile – and that of HE in Wales - and to reach out more successfully using our website and our newsletter.

The survey included feedback about:

- *people's knowledge, awareness and views of HEFCW*
- *perceptions about HEFCW's role*
- *perceptions about the quality of services and support provided by HEFCW*
- *contact and dealings with HEFCW staff*
- *the effectiveness of HEFCW's methods of communication*
- *perceptions about the effectiveness of the relationships between HEFCW and our partners and key stakeholders*
- *priority areas for improvement*

← Back

Universities mean business

Wales's universities and colleges continue to boost the economy more and more strongly, UK-wide figures published earlier this month showed.

Higher education institutions not only act as a magnet for international investment and talent, they also generate income within Wales and its communities.

New figures for the 2006/07 academic year show that universities and colleges in Wales continue to improve across a range of indicators of economic and social contribution, using their knowledge to create new companies, offering consultancy or training services and carrying out research using public and private funding.

The figures were published as HEFCW returned on 10 July to give further evidence to the National Assembly for Wales's Enterprise and Learning Committee's inquiry into the economic contribution of higher education.

"We have seen remarkable growth over the past seven years, with Welsh universities and colleges continuing to exceed expectations for a sector its size.

" We will continue to encourage universities and colleges to collaborate to help create initiatives of sufficient scale and scope."

Professor Philip Gummett, Chief Executive, HEFCW

← Back

New review of higher education in Wales

HEFCW Chairman Roger Thomas will be part of a new task and finish group, chaired by Professor Merfyn Jones, vice-chancellor of Bangor University, to review higher education in Wales.

The review will initially consider student finance in Wales and how it is used to get applicants from under-represented groups into higher education, as well as to encourage the take-up of priority subjects.

It will then review the purpose and role of higher education in Wales. Considering developments in England and Scotland, it will also look at the current and likely future demands and needs of learners, the economy and society.

"It is...time to refresh the [Reaching Higher] strategy [for higher education in Wales] in light of...new agendas and ensure we respond to the many challenges and opportunities face by higher education in Wales."

Jane Hutt, Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

← Back

Welsh Higher Education Brussels (WHEB)

Welsh Higher Education Brussels (WHEB) is a partnership, established with the financial support of Welsh higher education institutions and HEFCW. Opened in 2006, it delivers a specialised service to the Welsh HE sector and is the only Brussels office that specifically represents an entire national HE sector.

HEFCW and Higher Education Wales (HEW) have responsibility for the broad strategy and policy within which WHEB operates.

We have confirmed further funding from HEFCW over the next three academic years to retain this unique resource. In addition to institutional subscriptions this funding will ensure that the Welsh HE sector's position and interests continue to be promoted and strengthened in Europe until at least 2010/11.

WHEB:

Promotes the interests of the Welsh HE sector in Europe;

Enables the sector to engage more fully with European priorities; and

Facilitates stronger relationships between Welsh HEIs), European institutions and regional partners from the EU, and beyond.

← Back

Performance Indicators 2006/07

UK-wide figures published in June showed that higher education institutions in Wales have continued with their success in recruiting students from under-represented groups.

The figures, for the academic year 2006/07, showed that:

- Welsh universities and colleges continued to recruit higher proportions of young,full-time undergraduate students from state schools, lower socio-economic groups and neighbourhoods with low participation in HE than the UK as a whole; and
- the proportion of part-time undergraduate entrants with no previous experience of HE and who were from a low participation neighbourhood was the highest in the UK.

"These figures...confirm the commitment of our universities and colleges to offering opportunities to all those with the ability to benefit from higher education.

"The higher education experience is immensely rewarding and our institutions work hard with schools and colleges to spread this message throughout the communities in Wales through our Reaching Wider initiative, which is all about raising aspirations amongs

Another major achievement was that the proportion of full-time undergraduate students in Welsh institutions in receipt of a Disabled Students' Allowance (DSA) continued to rise and remained higher than the proportion for the UK as a whole.

both young and mature potential students."

HEFCW Chief Executive Professor Philip Gummett

← Back

Funding for strategies

We announced, in June, the allocations to institutions in the 2008/09 academic year to support the implementation of initial teacher training (ITT) strategies. This came to almost £1.2 million. It included placement grant funding for institutions to pass on to undergraduate ITT students.

We also confirmed that just over £1 million would be available to support institutions' learning and teaching strategies.

Finally, in 2008/09, we will distribute £1.8 million to institutions for satisfactory widening access strategies, which should include activities in priority areas such as addressing retention, encouraging care leavers into higher education and supporting disabled students.

← Back

Additional support for part-time students

Following the outcomes of the Independent Review of Part Time Higher Education Study in Wales - the Graham Review – in 2006, in mid-June this year we confirmed additional support for part-time students in 2008/09.

Funding totalling £6.4 million will be allocated once higher education insitutions have presented acceptable plans outlining how they will:

- widen access and strengthen provision within institutions; and
- strengthen employer links.

Higher education institutions have been asked to respond by 15 August 2008

← Back

Research Excellence Framework

Our circular W08/20HE provided further information on the next stage of the development of proposed new arrangements for research assessment – the Research Excellence Framework.

← Back

Accrediting initial teacher training (ITT) providers

In January 2008, we consulted on proposed revisions to the process of accrediting ITT providers. We published the outcomes of the consultation, along with revised procedures, in May.

Overall, the responses indicated general satisfaction with the revised procedures, although a number of changes were made to reflect some of the comments received.

The revised accreditation procedures have three main elements:

- *the accreditation of new providers*
- *confirming compliance by existing providers*
- *addressing non-compliance and the withdrawal of accreditation.*

← Back

Funding Allocations 2007/08

This annual publication provides details of the teaching, research and capital grants made by HEFCW to higher education institutions and directly funded further education colleges in Wales for the academic year 2007/08.

We have asked higher education institutions to respond to our annual request to return student data through our End of Year Monitoring exercise by 4 August 2008.

← Back

HEFCW, Linden Court, The Orchards, Ilex Close, Llanishen, Cardiff, CF14 5DZ

www.hefcw.ac.uk info@hefcw.ac.uk 029 2076 1861

About us

HEFCW is responsible for funding higher education in Wales.

We distribute funds made available by the Welsh Assembly Government to support education, research and related activities at 11 higher education institutions.

We also fund the teaching activities of the Open University in Wales and higher education courses at further education colleges.

We do not fund students directly.

In addition to our funding responsibilities, HEFCW provides advice to the Welsh Assembly Government on the funding needs, aspirations and concerns of the higher education sector in Wales.

www.hefcw.ac.uk

For further information about any of the issues in this newsletter, or any others relating to higher education in Wales, please email **info@hefcw.ac.uk** or telephone **029 2076 1861.**

To **unsubscribe** from this newsletter, please email **info@hefcw.ac.uk** with the words ‘unsubscribe - newsletter’ in the subject box.

For advice about student funding and finance in Wales, visit **Student Finance Wales.**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen

Rhifyn 6, Awst 2008

Croeso i rifyn diweddaraf Newyddlen CCAUC.

Ynddo cewch wybodaeth am ddatblygiadau newydd a diweddar o fewn ein gwaith o gyllido addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys dolenni at eitemau newyddion a chylchlythyron.

• Cliciwch ar eitem yn y mynegai *(isod)* i fynd at eitem yn y newyddlen.
• Cliciwch ar deitlau'r eitemau er mwyn mynd i'r wefan am fwy o wybodaeth.

Cysylltwch ag Emma Raczka ar 029 2068 2225 neu ar emma.raczka@hefcw.ac.uk os byddech am dderbyn y newyddlen ar ffurf arall, er enghraifft Word, testun mawr neu Braille.

Yn y rhifyn hwn

Cyllid ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru yn 2008/09

Cynhadledd Ehangu Mynediad i Ddysgu Gydol Oes

Rhagor o gyllid *Ymgyrraedd yn Ehangach* i ddod

Arolwg Rhanddeiliaid CCAUC

Mae prifysgolion yn golygu busnes

Adolygiad newydd o addysg uwch yng Nghymru

Addysg Uwch Cymru Brwsel

Dangosyddion Perfformiad 2006/07

Cyllido strategaethau

Cymorth ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser

Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

Achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA)

Dyraniadau Cyllid 2007/08

Amdanom ni

Cyllid ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru yn 2008/09

Cyhoeddodd CCAUC ym Mis Mai y byddai sefydliadau addysg uwch Cymru'n derbyn dyraniadau grant o £450 miliwn yn y flwyddyn academaidd 2008/09.

Bydd y prif ddyraniadau cyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil yn dod i gyfanswm o dros £360 miliwn. Dyrennir £90 miliwn yn ychwanegol ar gyfer prosiectau cyllid cyfalaf ac i hybu amrywiaeth o flaenoriaethau strategol eraill.

Yn unol ag arweiniad Llywodraeth y Cynulliad, parhawn i ystyried ffyrdd strategol eraill o ddefnyddio cyllid ac mae'n fwriad gennym gynyddu'r gyfran o'n grant a neilltuir ar gyfer blaenoriaethau strategol, yn enwedig ymchwil, ehangu mynediad a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn cynyddu i'r eithaf y cyfraniad y mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn ei wneud i Gymru, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda hwy i'w helpu i barhau'n gystadleuol ym marchnad y DU a'r farchnad ryngwladol.

.

"Mae addysg uwch yn cynhyrchu incwm net ac felly mae'n fuddsoddiad ardderchog ar gyfer arian cyhoeddus, a bydd CCAUC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod addysg uwch yn derbyn digon o gyllid i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at ddatblygiad Cymru yn y dyfodol."

Sylwadau
Roger Thomas,
Cadeirydd CCAUC,
ar y setliad cyllido newydd

← Yn ôl

Cynhadledd Ehangu Mynediad i Ddysgu Gydol Oes

Traddododd Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y brif araith yn y gynhadledd ar ehangu mynediad i ddysgu gydol oes ar 19 Mehefin. Denodd y digwyddiad, a gynhaliwyd ar y cyd gan CCAUC, UALL Cymru (Cymdeithas Dysgu Gydol Oes y Prifysgolion

"Mae'r ffaith i'r Gweinidog Dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi'r brif araith yn y gynhadledd hon yn arwydd o'r pwysigrwydd a roddir i

Cymru) a NIACE Dysgu Cymru (Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Addysg Barhaus Oedolion), dros gant o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru.

Pwrpas y gynhadledd oedd ystyried nifer o themâu'n ymwneud â pholisi ac arfer ym maes ehangu mynediad sy'n berthnasol i addysg uwch, er mwyn llywio polisi yn y dyfodol a rhannu'r arfer gorau.

Agorodd yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC, y gynhadledd drwy wahodd y cynrychiolwyr i ystyried y cynnydd a oedd wedi cael ei wneud ym maes ehangu mynediad i addysg uwch a'r sialensiau yr oeddem yn eu hwynebu wrth i ni nesáu at ddiwedd strategaeth *Ymgeisio'n* Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch (2000 - 2010).

Darparodd yr Athro Alan Felstead o Brifysgol Caerdydd ddadansoddiad o'r lefelau o sgiliau ac ansawdd y swyddi yng Nghymru fel cyd-destun ar gyfer trafodaethau bord gron a arweiniwyd gan lunwyr polisi ac ymarferwyr ehangu mynediad yng Nghymru.

ehangu mynediad i addysg uwch, gan gynnwys y cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach. Mae sefydliadau addysg uwch yn parhau i wneud cynnydd tuag at ehangu mynediad i bob rhan o'n cymdeithas ac felly chwaraeant ran bwysig yn y dasg o sicrhau bod Cymru'n gymdeithas gynhwysol a medrus."

Philip Gummett, Prif Weithredwr, CCAUC

Cyhoeddir adroddiad ar y gynhadledd ar wefan CCAUC ym mis Awst.

← Yn ôl

Rhagor o gyllid *Ymgyrraedd yn Ehangach* i ddod

Mae cynllun cenedlaethol CCAUC i gynyddu'r amrywiaeth o fyfyrwyr sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru wedi cael tair blynedd arall o gyllid.

Mae *Ymgyrraedd yn Ehangach*, a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnwys prifysgolion, colegau, ysgolion a chyrff eraill yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i godi dyheadau a chyflawniad ymhlith dysgwyr mewn cymunedau sydd fwyaf dan anfantais ac o gymunedau sydd yn draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu

"Mae'r gwaith a wnaed hyd yma gan y Partneriaethau i ehangu mynediad i addysg uwch wedi bod yn ganmoladwy ac rydw i'n falch bod Cymru'n parhau ar y blaen yn ei hymdrechion i ddenu pobl o'r cymunedau hynny sydd fwyaf anodd eu cyrraedd."

Jane Hutt, Gweinidog dros Blant,

£4 miliwn am y ddwy flynedd academaidd nesaf, 2008/10, ac wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol yn 2010/11.

Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

← Yn ôl

Arolwg Rhanddeiliaid CCAUC

I gyflawni ein cenhadaeth, rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth effeithiol i'n rhanddeiliaid a bod ein gweithrediadau ni a'n perthnasoedd â'r sector addysg uwch yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid eraill yn cael eu cynnal gan gyfathrebiadau clir, hygyrch a strategol.

Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein gwasanaeth, a pha mor dda y mae ein perthnasoedd yn gweithio, comisiynodd y Cyngor ei arolwg cyntaf erioed o randdeiliaid a phartneriaid yn yr hydref 2007.

Pwrpas yr arolwg annibynnol hwn oedd casglu barn am y gwasanaethau a ddarparwn a'n perthnasoedd â chyrff eraill.

Gallwn gymharu ein "sgôr cymeradwyaeth" gyffredinol â sgôr cyrff cyllido addysg uwch eraill y DU, drwy gyfeirio at arolygon cyffelyb. Cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban sgôr cymeradwyaeth o 72% a sicrhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr sgôr o 76% yn ei arolwg cyntaf; mae hyn bellach wedi codi i 84%.

Mae'r canlyniad cyffredinol, a llawer o'r manylion sydd wedi dod i'r amlwg, yn galondid i ni. Ond drwy wrando ar ein partneriaid, rydym yn bwriadu datblygu ein systemau a'n ffyrdd o weithio er mwyn dod yn fwy effeithiol a sicrhau mwy o fodlonrwydd.

Deuwn i'r casgliad fod angen i ni egluro ein rôl yn well mewn perthynas â'r cyrff eraill y rhyngweithiwn â hwy. Mae angen i ni wella ein rhyngweithio â sefydliadau AU hefyd. Yn olaf, mae

Roedd yr arolwg yn cynnwys adborth am:

- *gwybodaeth, ymwybyddiaeth a barn pobl am CCAUC*
- *canfyddiadau am rôl CCAUC*
- *canfyddiadau am ansawdd y gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddarperir gan CCAUC*
- *cysylltu ac ymwneud â staff CCAUC*
- *effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu CCAUC*
- *canfyddiadau am effeithiolrwydd y perthnasoedd rhwng CCAUC a'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol*
- *meysydd blaenoriaethol ar gyfer gwelliannau*

← Yn ôl

gennym gynlluniau i wella ein proffil ni a phroffil AU yng Nghymru yn y cyfryngau, ac i ddefnyddio ein gwefan a'n newyddlen i gyrraedd allan yn fwy llwyddiannus.

Mae prifysgolion yn golygu busnes

Mae cyfraniad prifysgolion a cholegau Cymru i'r economi yn mynd o nerth i nerth, yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn.

Yn ogystal â bod yn fagnet ar gyfer buddsoddi a thalent ryngwladol, cynhyrchant incwm o fewn Cymru a'i chymunedau.

Dengys y ffigurau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2006/07 fod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i wella ar draws ystod o ddangosyddion yn ymwneud â chyfraniad economaidd a chymdeithasol. Maent hwy'n defnyddio eu gwybodaeth i greu cwmnïau newydd, yn cynnig gwasanaethau ymgynghori neu hyfforddi, ac yn defnyddio arian cyhoeddus a phreifat i wneud ymchwil.

Cyhoeddwyd y ffigurau wrth i CCAUC ddychwelyd ar 10 Gorffennaf i roi tystiolaeth bellach i ymchwiliad Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfraniad economaidd addysg uwch.

"Rydym ni wedi gweld twf aruthrol yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf, ac mae prifysgolion a cholegau Cymru'n parhau i wneud yn well na'r disgwyl o ystyried maint y sector.

" Byddwn yn parhau i annog prifysgolion a cholegau i gydweithio i greu cynlluniau o faint a chwmpas digonol."

Yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr, CCAUC

← Yn ôl

Adolygiad newydd o addysg uwch yng Nghymru

Bydd Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC, yn rhan o grŵp gorchwyl a gorffen newydd, wedi'i gadeirio gan yr Athro Merfyn Jones, is-ganghellor Prifysgol Bangor, i adolygu addysg uwch yng Nghymru.

Yn gyntaf, bydd yr adolygiad yn ystyried cyllido myfyrwyr yng Nghymru a sut mae'n cael ei ddefnyddio i ddenu ymgeiswyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i addysg uwch, ac i annog myfyrwyr i ddewis pynciau blaenoriaethol.

Yna bydd yn adolygu pwrpas a rôl addysg uwch yng Nghymru. Yn ogystal â rhoi ystyriaeth i

Daeth yn amser i adolygu'r strategaeth [Ymgeisio'n Uwch ar gyfer addysg uwch yng Nghymru] yng ngoleuni agendâu newydd a sicrhau ein bod yn ymateb i'r sialensiau a chyfleoedd lawer a wynebir gan addysg uwch yng Nghymru."

Jane Hutt, Gweinidog dros Blant, Addysg,

ddatblygiadau yn Lloegr a'r Alban, bydd yn edrych ar ofynion ac anghenion dysgwyr, yr economi a chymdeithas heddiw ac yn y dyfodol.

Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

← Yn ôl

Addysg Uwch Cymru Brwsel

Partneriaeth a sefydlwyd gyda chymorth ariannol sefydliadau addysg uwch Cymru a CCAUC yw Addysg Uwch Cymru Brwsel (AUCB). Agorwyd y swyddfa yn 2006 i ddarparu gwasanaeth arbenigol i'r sector AU Cymreig. Dyma'r unig swyddfa ym Mrwsel sy'n cynrychioli'n benodol sector AU cenedlaethol cyfan.

CCAUC ac Addysg Uwch Cymru (AUC) sy'n gyfrifol am y strategaeth a pholisi cyffredinol y mae AUCB yn gweithredu o'u mewn.

Bydd CCAUC yn darparu cyllid pellach dros y tair blynedd nesaf i gynnal yr adnodd unigryw hwn. Bydd y cyllid hwn, ynghyd â thanysgrifiadau'r sefydliadau, yn sicrhau bod safle a buddiannau'r sector AU Cymreig yn parhau i gael eu hyrwyddo a'u cryfhau yn Ewrop hyd 2010/11 o leiaf.

AUCB:

Mae'n hyrwyddo buddiannau'r sector AU Cymreig yn Ewrop;

Mae'n galluogi'r sector i ddod yn fwy ymwybodol o flaenoriaethau Ewropeaidd; ac

Mae'n hwyluso perthnasoedd cryfach rhwng SAUau Cymru, sefydliadau Ewropeaidd a phartneriaid rhanbarthol o'r UE ac y tu hwnt.

← Yn ôl

Dangosyddion Perfformiad 2006/07

Mae ffigurau ar gyfer y DU gyfan a gyhoeddwyd ym mis Mehefin yn dangos bod llwyddiant sefydliadau addysg uwch Cymru i recriwtio myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi parhau.

Dangosodd y ffigurau, ar gyfer y flwyddyn academaidd 2006/07, fod prifysgolion a cholegau Cymru'n parhau i recriwtio cyfrannau uwch o fyfyrwyr israddedig amser-llawn ifanc o ysgolion y wladwriaeth, grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chymdogaethau â chyfranogiad isel mewn AU na gwledydd eraill y DU, ac mai'r gyfran o fyfyrwyr israddedig rhan-

""Mae'r ffigurau hyn yn cadarnhau ymrwymiad ein prifysgolion a'n colegau i gynnig cyfleoedd i bawb sy'n gallu elwa ar addysg uwch.

"Mae'r profiad addysg uwch yn eithriadol o werthfawr ac mae'r sefydliadau'n gweithio'n galed gydag ysgolion a cholegau i ledaenu'r neges hon ar hyd a lled Cymru drwy ein cynllun Ymgyrraedd yn

amser heb unrhyw brofiad blaenorol o AU a oedd yn dod o gymdogaethau â chyfranogiad isel oedd yr uchaf yn y DU.

Cyflawniad mawr arall oedd bod y gyfran o fyfyrwyr israddedig amser-llawn mewn sefydliadau Cymreig a oedd yn derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA) yn parhau i godi a'i bod yn parhau'n uwch na'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

Ehangach, sy'n ymwneud â chodi dyheadau ymhlith pobl ifanc ac aeddfed fel ei gilydd."

Yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC

← Yn ôl

Cyllido strategaethau

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd y dyraniadau a roddir i sefydliadau yn y flwyddyn academaidd 2008/09 i weithredu eu strategaethau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA). Roeddynt yn dod i gyfanswm o bron £1.2 filiwn. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer grantiau lleoliad a drosglwyddir i fyfyrwyr HCA israddedig gan y sefydliadau.

Cadarnhawyd hefyd y byddai ychydig dros £1 filiwn ar gael i hybu strategaethau dysgu ac addysgu'r sefydliadau.

Yn olaf, yn 2008/09, byddwn yn dosbarthu £1.8 miliwn i sefydliadau sy'n cyflwyno strategaethau ehangu mynediad boddhaol, a ddylai gynnwys gweithgareddau mewn meysydd blaenoriaethol megis cadw myfyrwyr, denu ymadawyr gofal i addysg uwch, a chefnogi myfyrwyr anabl.

← Yn ôl

Cymorth ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser

Yn sgil canlyniadau'r Adolygiad Annibynnol o Astudiaeth Addysg Uwch Ran-Amser yng Nghymru – Adolygiad Graham – yn 2006, cadarnhawyd ym mis Mehefin eleni y byddai cymorth ychwanegol ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yn 2008/09.

Bydd cyfanswm o £6.4 miliwn ar gael. Bydd y sefydliadau'n derbyn dyraniadau ar ôl cyflwyno cynlluniau derbyniol sy'n amlinellu sut y byddant yn:

Gofynnwyd i sefydliadau addysg uwch ymateb erbyn 15 Awst 2008.

← Yn ôl

ehangu mynediad ac yn cryfhau darpariaeth o fewn y sefydliad; ac yn

cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr.

Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

Yng nghylchlythyr W08/20HE rhoddwyd gwybodaeth bellach am gam nesaf y broses o ddatblygu trefniadau newydd arfaethedig ar gyfer asesu ymchwil – y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

← Yn ôl

Achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA)

Ym mis Ionawr 2008, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r broses o achredu darparwyr HCA. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd â gweithdrefnau diwygiedig, ym mis Mai.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn dangos bodlonrwydd â'r gweithdrefnau diwygiedig, er i nifer o newidiadau gael eu gwneud yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd.

Mae gan y gweithdrefnau achredu diwygiedig dair prif elfen:

• achredu darparwyr newydd
• cadarnhau bod y darparwyr presennol yn cydymffurfio
• mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a thynnu achrediad yn ôl.

← Yn ôl

Dyraniadau Cyllid 2007/08

Mae'r cyhoeddiad blynyddol hwn yn rhoi manylion y grantiau addysgu, ymchwil a chyfalaf a roddwyd gan CCAUC i sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd 2007/08.

Rydym wedi gofyn i'r sefydliadau addysg uwch ymateb i'n cais blynyddol i ddychwelyd data am fyfyrwyr drwy ein hymarfer Monitro Diwedd Blwyddyn erbyn 4 Awst 2008.

← Yn ôl

HEFCW / CCAUC, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex,
Llanisien, Caerdydd, CF14 5DZ
www.hefcw.ac.uk info@hefcw.ac.uk 029 2076 1861

Amdanom ni

Mae CCAUC yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn dosrannu arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn 11 sefydliad addysg uwch.

Rydym hefyd yn cyllido gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru a chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Nid ydym yn cyllido myfyrwyr yn uniongyrchol

Yn ychwanegol at ein cyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllido, dyheadau a phryderony sector addysg uwch yng Nghymru

www.hefcw.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r materion yn y newyddlen hon, neu unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yng Nghymru, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** neu ffonio **029 2076 1861.**

I **dynnu'ch enw oddi ar restr danysgrifio'r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** gyda'r geiriau 'tynnu enw tanysgrifio i'r newyddlen'yn y blwch pwnc.

I gael cyngor am gyllid ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru, ewch i **Cyllid Myfyrwyr Cymru.**